Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Rolant Tomos






### Crynodeb:

Tydi bywyd ddim yn hawdd i Gwen ac Idris. Mae eu tad wedi colli'r plot a'u mam wedi cael ei chipio i'r is-fyd drwy dwll yn y seler, ac mae'n rhaid iddyn nhw ofyn am gymorth y Meirw Byw er mwyn ei chael yn ol.

Daw'r ddau i ddeall fod ochr gudd i Gymru yn llawn creaduriaid y tu hwnt i'w hunllefau gwaethaf, ac y bydd angen iddynt frwydro yn erbyn pwerau tywyll er mwyn achub eu mamwlad.

"Dyma nofel wallgo o ddigri sy'n llawn dychymyg" - Dewi Prysor.

### Bywgraffiad

Ganwyd a magwyd Rolant yn Nolgellau, ac fe aeth i'r coleg yn Aberystwyth a Denmarc i astudio Ffilm. Bu'n gweithio am gyfnod fel cyfarwyddwr teledu. Wedi cyfnod ym maes bwyd a diod, gan gynnwys amser yn rhedeg bragdy, fe ddychwelodd Rolant at y diwydiannau creadigol. Erbyn hyn mae'n byw ym Mro Morgannwg gan rannu ei amser rhwng ysgrifennu syniadau teledu, sgriptiau ffilm a'i nofel nesaf. *Meirw Byw* yw ei nofel gyntaf.

**Fel person ifanc, pwy neu beth wnaeth ddylanwadu arnat?**

Douglas Adams, Y Cyrff, Manic Street Preachers.

**Beth yw dy ddylanwadau nawr?**

Hoff o waith Llwyd Owen, Dewi Prysor, Manon Steffan Ros, Haruki Murakami, Cormac McCarthy, Neil Gaiman, *The Bear* ar deledu a Ren mewn miwsig.

**Pryd ddest ti'n ymwybodol dy fod eisiau sgwennu, oedd unrhyw ffactorau arbennig wedi cael effaith?**

Dwi wedi bod yn trio sgwennu ers yr ysgol gynradd, ond Gala Antipenko – darlithrwraig yn Ebeltoft roddodd y rhyddid a hyder i mi wneud.

**Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?**

Dwi wrth fy modd efo bob dim – mae nhw'n agor drysau newydd i'r dychymyg, dysgu pethau newydd. Ymarfer corff i'r ymennydd. Ar hyn o bryd dwi'n darllen *Borstal Boy* gan Brendan Behan, mae *Sarn Helen* Tom McCollough yn barod i fynd nesaf a *Last Stand at Papago Wells* gan Louis L'Amour yn drît bach amser cinio.

**Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnot yn ystod dy fywyd?**

Profiad cyntaf oedd llyfrau adar Ted Breeze, cyfres antur Willard Price a'r *Hamlyn Book of Ghosts* yn llyfrgell Dolgellau, dramâu Ewropeaidd od yn Aberystwyth, a cael mynd â'r plant i fenthyg llyfrau yn llyfrgell y Bontfaen. Dwi dal wrth fy modd yn pori a wastad yn synnu fod cymaint o straeon gwych i'w cael.

**Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?**

Rho'r ffôn i lawr am 5 munud, mae ffonau yn cipio dychymyg! Os wnei di fuddsoddi amser mewn llyfr mi gei di gymaint mwy yn ôl achos mi wyt ti fel darllenydd yn rhan o'r stori, yn rhan o'r creu.